

# Gweithiwr Cymdeithasol - Tîm Cyswllt Cyntaf Plant

**Cyflog: Newydd Gymhwyso £33,024 – £35,745**

**Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) £36,648 - £39,186**

**Swyddfeydd y Sir, Y Fflint a Gweithio'n Hyblyg**

Mae'r Tîm Cyswllt Cyntaf Plant yn rheoli'r gwaith o gofnodi atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Plant. Caiff yr atgyfeiriadau eu gwirio am unrhyw bryderon diogelwch ac yna eu gweithredu'n briodol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, eu rhaeadru i'r timau priodol yn fewnol neu eu pasio ymlaen i'n Gwasanaeth Cymorth Cynnar.

Bydd Gweithiwr Cymdeithasol gyda'r Tîm Cyswllt Cyntaf Plant yn gyfrifol am ymateb i bob adroddiad a geir, darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth neu gyflawni ymholiadau Adran 47, naill ai drwy un asiantaeth, neu drwy ddull ymholi ar y cyd, ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru. Bydd disgwyl i'r ymarferydd gysylltu a chydweithio'n agos ag asiantaethau statudol eraill. Byddwch yn ymuno â thîm sefydledig sy'n gweithredu o fewn ein cylch gwaith Gwasanaethau Plant, ac yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu llunio, ac y cydymffurfir â nhw.

Rhaid i chi fod yn ymarferydd Gwaith Cymdeithasol cadarn a llawn cymhelliant, gyda'r weledigaeth a'r ysgogiad i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, sy'n gost effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant a'u teuluoedd, gan roi sylw penodol i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r plentyn a'u teulu.

Mae'r tîm hefyd yn cynnal asesiadau Risg Cyn Geni a gwaith Cyfraith Breifat drwy gwblhau Dadansoddiad Effaith ar y Plentyn ac adroddiadau Adran 7 ac Adran 37. Mae angen y wybodaeth a'r gallu i ysgrifennu'n ddadansoddol er mwyn cyflawni'r rôl, yn ogystal â'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd.

Gan gydweithio ag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o'r holl safonau perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a, gan fod y swydd hon yn arwain at gyswllt sylweddol â phlant ac/neu oedolion diamddiffyn, bydd rhaid iddo/iddi hefyd gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Brigid Gribbin, Rheolwr y Tîm: Brigid.Gribbin@flintshire.gov.uk

Os ydych chi'n Fyfyriwr Gwaith Cymdeithasol yn eich blwyddyn olaf o ymarfer gyda diddordeb mewn swydd gyda Sir y Fflint, cysylltwch â Brigid Gribbin: Brigid.Gribbin@flintshire.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council